**Rhif: WG47937**

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

# Ymgynghoriad Cymru ar Is-ddeddfwriaeth Caffael Cyhoeddus: Rhan 2

Dyddiad cyhoeddi: 17 Gorffennaf 2023

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 23.45 ar 25 Awst 2023.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

OGL © Hawlfraint y Goron xxxx

| **Cynnwys** | **Tudalen** |
|---|---|
| Cynnwys | 2 |
| Cyflwyniad | 4 |
| Cefndir y ddeddfwriaeth | 6 |
| Sut mae ymateb | 8 |
| Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig | 9 |
| Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU) | 11 |
| PYNCIAU AR GYFER YMGYNGHORI ARNYNT A CHWESTIYNAU CYSYLLTIEDIG | 13 |
| Hysbysiad Piblinell | 13 |
| Hysbysiad Caffael wedi'i Gynllunio | 14 |
| Hysbysiad Ymgysylltu Rhagarweiniol â'r Farchnad | 15 |
| Cyfleustodau Preifat | 15 |
| Hysbysiad Tendro | 17 |
| Hysbysiad Marchnad Ddynamig Cyfleustodau/Marchnad Ddynamig, gan gynnwys Hysbysiad Marchnad Ddynamig Cyfleustodau Cymwys | 18 |
| Cyfleustodau Cymwys – Hysbysiad Marchnad Ddynamig | 18 |
| Hysbysiad Tryloywder | 20 |
| Hysbysiad Terfynu Proses Caffael | 21 |
| Crynodeb o'r Asesiad | 22 |
| Hysbysiad Dyfarnu Contract | 24 |
| Cyfleustodau Preifat | 24 |
| Hysbysiad Manylion Contract | 25 |
| Hysbysiad Cydymffurfedd Taliadau | 27 |
| Hysbysiad Perfformiad Contract | 28 |
| Hysbysiad Newid Contract | 29 |

| | |
|---|---|
| Hysbysiad Terfynu Contract | 30 |
| Platfform Digidol Canolog | 31 |
| Platfform Digidol Canolog: Gwybodaeth am Gyflenwyr | 33 |
| Codau Adnabod Unigryw | 35 |
| Darpariaethau Pontio | 36 |
| Diwygiadau Canlyniadol | 39 |
| Contractau o dan y trothwy (Cymru yn unig) | 40 |
| Y Gymraeg | 42 |

## Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar yr is-ddeddfwriaeth ddrafft sy'n ofynnol i weithredu'r weithdrefn newydd ar gyfer caffael cyhoeddus a sefydlwyd gan y Bil Caffael. Ymgynghoriad technegol yw hwn, wedi'i rannu'n ddwy ran. Mae'r ail ran hon yn cyfeirio'n bennaf at yr hysbysiadau tryloywder sy'n caniatáu i awdurdodau contractio fwrw ymlaen â phrosesau caffael drwy gydol cylch bywyd y broses caffael mewn modd agored, tryloyw a llawn gwybodaeth.

Dyma'r hysbysiadau:

- Hysbysiad Piblinell
- Hysbysiad Caffael wedi'i Gynllunio
- Hysbysiad Ymgysylltu Rhagarweiniol â'r Farchnad
- Hysbysiad Tendro
- Hysbysiad Marchnad Ddynamig Cyfleustodau/Marchnad Ddynamig, gan gynnwys Hysbysiad Marchnad Ddynamig Cyfleustodau Cymwys
- Hysbysiad Tryloywder
- Hysbysiad Terfynu Proses Caffael
- Hysbysiad Dyfarnu Contract
- Hysbysiad Manylion Contract
- Hysbysiad Cydymffurfedd Taliadau
- Hysbysiad Perfformiad Contract
- Hysbysiad Newid Contract
- Hysbysiad Terfynu Contract

Yn fras mae trefn yr hysbysiadau yn y ddogfen ymgynghori hon yn dilyn y drefn y byddant yn cael eu defnyddio/y bydd eu hangen wrth i broses caffael symud ymlaen o'r dechrau i'r cam dyfarnu ac ar ôl hynny.

Ar ben hynny, mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nifer o eitemau eraill sy'n rhan o'r offeryn statudol drafft sy'n ymwneud â thryloywder. Y materion eraill hyn yw:

- Platfform Digidol Canolog;
- Platfform Digidol Canolog: Gwybodaeth am Gyflenwyr (a fydd yn golygu bod modd i gyflenwyr gyflwyno gwybodaeth graidd unwaith yn unig)
- Codau Adnabod Unigryw (codau adnabod unigryw sefydliadau, gweithdrefnau a hysbysiadau sydd eu hangen ar y platfform digidol er mwyn iddo weithio'n iawn)
- Crynodeb o'r Asesiadau

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

OGL © Hawlfraint y Goron xxxx

Mae'r ymgynghoriad hefyd yn gofyn am safbwyntiau ar y cynnig i ddefnyddio un o bwerau'r Bil a fyddai'n eithrio cyfleustodau preifat o'r gofyniad i gyhoeddi hysbysiad ymgysylltu rhagarweiniol â'r farchnad.

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn nodi'r cyd-destun a'r bwriad polisi ar gyfer pob un o'r hysbysiadau a'r gofynion gwybodaeth hyn. Nid yw'n manylu, er enghraifft, ar yr wybodaeth y mae'n rhaid ei rhoi ym mhob hysbysiad. Mae'r manylion hyn yn yr offeryn statudol drafft ei hun ac mae'n rhaid ei ddarllen ar y cyd â'r ddogfen hon er mwyn gallu ymateb i'r cwestiynau isod.

Yn olaf, mae'r ymgynghoriad yn egluro'r dull gweithredu i bontio i'r weithdrefn newydd a sut bydd hyn yn cael ei reoli ar gyfer prosesau caffael sydd eisoes wedi dechrau neu a ddyfarnwyd o dan y rheoliadau presennol. Mae'r ymgynghoriad yn gofyn am sylwadau ar y dull sy'n cael ei gynnig i ddelio â'r trefniadau pontio ar gyfer prosesau caffael sydd eisoes ar waith ar yr adeg y daw'r weithdrefn newydd i rym, ac mae'r dull hwn yn cael ei amlinellu yn y ddogfen hon. Nid ydym yn ceisio barn ar y drafftio manwl ar gyfer darpariaethau pontio, ac felly nid yw hyn wedi'i gynnwys yn yr offeryn statudol drafft – er y bydd wedi'i gynnwys yn yr offeryn statudol terfynol a osodir gerbron y Senedd.

Er nad ydym yn bwriadu ymgynghori ar ddrafftio ar gyfer y diwygiadau canlyniadol sy'n deillio o'r Bil, mae'r ymgynghoriad yn nodi'r sefyllfa ar ddeddfwriaeth arall y bydd angen ei diwygio er mwyn i ddarpariaethau llawn y Bil ddod i rym (er enghraifft, bydd angen nifer o ddiwygiadau fel bod cyfeiriadau at y Rheoliadau Contractau Cyhoeddus mewn deddfwriaeth arall yn cyfeirio at y Ddeddf Caffael newydd).

Mae Cwestiynau Gorfodol yn ceisio deall a yw manylion technegol y fersiwn ddrafft yn gywir ac yn briodol a byddant yn defnyddio graddfeydd o 'Gytuno'n gryf' i 'Anghytuno'n gryf'.

Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi gweithio'n agos ar ddatblygu eu hofferynnau statudol eu hunain i sicrhau bod y deddfwriaethau mor gyson â phosibl ac i leihau unrhyw risg o wahaniaethau posibl. Mae hefyd yn bwysig bod yr amserlenni ar gyfer gosod yr offerynnau statudol yn cyd-fynd, a dyma un o'r prif resymau dros adlewyrchu amseriad yr ymgynghoriad hwn ag ymgynghoriad Llywodraeth y DU.

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn defnyddio'r offeryn statudol drafft a ddatblygwyd gan Lywodraeth y DU.

Bydd yr offeryn statudol drafft sy'n cael ei baratoi gan Lywodraeth Cymru yn adlewyrchu'r darpariaethau yn offeryn statudol Llywodraeth y DU cymaint ag y bo modd, ac eithrio yn yr ychydig feysydd lle ceir rhanddirymiadau neu wahaniaethau sy'n benodol i Gymru. Hefyd,

bydd yr offeryn statudol sy’n cael ei ddatblygu gan Lywodraeth Cymru ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Dylid nodi’r meysydd allweddol sy’n wahanol ac sy’n benodol i Gymru yn y rheoliadau, sy’n cael sylw yn ail ran yr ymgynghoriad, sef:

- Cyhoeddi Addasiadau – Ar ôl cyhoeddi Hysbysiad Newid Contract, mae offeryn statudol drafft y DU yn mynnu bod awdurdodau contractio yn cyhoeddi addasiadau i gontractau ar gyfer unrhyw gontract sy’n werth dros £5m. Nid yw’r gofyniad hwn yn berthnasol i awdurdodau contractio yng Nghymru oni bai fod awdurdod contractio yng Nghymru yn addasu contract a ddyfernir yn dilyn proses caffael o dan drefniant caffael a gedwir yn ôl. Gofynnir i’r ymatebwyr fod yn ymwybodol o hyn wrth ymateb i’r cwestiynau hyn.
- Hysbysiad Manylion Contract – Ar gyfer contractau sy’n werth dros £5m, mae offeryn statudol drafft y DU yn mynnu bod awdurdodau contractio yn cyhoeddi’r contract. Ni fydd y gofyniad hwn yn berthnasol i awdurdodau contractio yng Nghymru oni bai fod awdurdod contractio yng Nghymru yn dyfarnu contract yn dilyn proses caffael o dan drefniant caffael a gedwir yn ôl. Gofynnir i’r ymatebwyr fod yn ymwybodol o hyn wrth ymateb i’r cwestiynau hyn.
- Mae adran wedi’i chynnwys ar gontractau o dan y trothwy nad yw wedi’i chynnwys yn offeryn statudol drafft y DU. Bydd offeryn statudol drafft Cymru yn cynnwys rhai gwelliannau i’r gwerthoedd ar gyfer contractau o dan y trothwy a gofynion ychwanegol sy’n ymwneud â System Cofrestru Cyflenwyr y Platfform Canolog. Rydym yn annog ymatebwyr i ymateb i’r cwestiynau hyn felly.
- Mae offeryn statudol drafft Llywodraeth y DU yn cynnwys rhestr o awdurdodau contractio a bennir yn awdurdodau amddiffyn. Ni fydd y rhestr hon yn rhan o offeryn statudol drafft Cymru ac felly dylai’r ymatebwyr ei diystyru. Platfform Digidol Canolog - Mae’r DU yn datblygu system ar-lein i gyhoeddi a darparu hysbysiadau a dogfennau caffael cyhoeddus. Yng Nghymru, bydd angen cyhoeddi hysbysiadau ar GwerthwchiGymru, a fydd maes o law yn bwydo i’r system hon a byddant hefyd ar gael ar GwerthwchiGymru ei hun.

## **Cefndir y ddeddfwriaeth**

Mae dros £8 biliwn yn cael ei wario ar gaffael cyhoeddus yng Nghymru bob blwyddyn, sy’n cyfrif am bron i draean o holl wariant y sector cyhoeddus. Gall gwella’r ffordd y mae caffael cyhoeddus yn cael ei reoleiddio sbarduno arloesedd a chydnerthedd, a sicrhau manteision ar hyd a lled Cymru drwy gefnogi ein heconomi leol ac arbed arian i’r trethdalwyr.

Mae caffael yn un o'r dulliau pwysicaf sydd gennym i gefnogi Cymru sy'n fwy cyfartal, yn fwy cynaliadwy ac yn fwy llewyrchus, fel yr ydym i gyd am ei gweld dros y blynyddoedd nesaf. Mae'r Bil Caffael yn helpu i gyflawni dyheadau Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chaffael, gan roi sicrwydd a sefydlogrwydd i sefydliadau sy'n cynnal busnes ar draws y ffiniau.

Bydd y newidiadau sy'n cael eu cyflwyno o ganlyniad i'r Bil Caffael yn gwneud caffael cyhoeddus yn fwy hygyrch i fusnesau, gan gynnwys ein busnesau bach a chanolig. Byddant hefyd yn darparu mwy o werth am arian i drethdalwyr Cymru, ac yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i sicrhau canlyniadau cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol i Gymru.

O dan y weithdrefn newydd, bydd pawb yn gallu cael gafael ar ddata caffael cyhoeddus. Bydd dinasyddion yn gallu craffu ar benderfyniadau gwario. Bydd cyflenwyr yn gallu dod o hyd i gyfleoedd newydd i gynnig a chydweithio'n gynt yn y broses, a fydd yn ei gwneud hi'n haws i fusnesau bach a chanolig Cymru gynllunio a pharatoi. Bydd awdurdodau contractio hefyd yn gallu dadansoddi'r farchnad a meincnodi eu perfformiad drwy gymharu ag eraill, er enghraifft ar eu gwariant gyda busnesau bach a chanolig yng Nghymru.

## Yr Ymgynghoriad

**Rydym yn eich gwahodd i ymateb i gwestiynau'r ymgynghoriad hwn drwy lenwi'r arolwg erbyn 23:45 ar 25ain Awst 2023.**

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am adborth ar yr is-ddeddfwriaeth a ddaw o dan y Bil Caffael. Mae dwy ran i'r ymgynghoriad. Mae rhan gyntaf y broses yn canolbwyntio ar bynciau sy'n gofyn am fanylion penodol mewn is-ddeddfwriaeth. Cafodd y rhan honno o'r ymgynghoriad ei rhyddhau ar 19 Mehefin a daw i ben ar 28 Gorffennaf ac mae ar gael yn https://www.llyw.cymru/ymgynghoriad-cymru-ar-reoliadau-caffael-cyhoeddus-rhan-1. Mae'r ail ran hon yn ymwneud yn bennaf â'r darpariaethau a'r hysbysiadau tryloywder a fydd yn cael eu defnyddio gan Awdurdodau Contractio yng Nghymru i gydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol o dan y Bil. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth am y dull gweithredu sy'n cael ei gynnig ar gyfer y trefniadau pontio yng nghyswllt prosesau caffael sydd eisoes ar waith ar yr adeg y daw'r weithdrefn newydd i rym a'r sefyllfa o ran y ddeddfwriaeth arall y bydd angen ei diwygio er mwyn i ddarpariaethau llawn y Bil ddod i rym.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn fanwl ac yn dechnegol iawn ac mae gofyn deall y weithdrefn caffael sydd mewn grym ar hyn o bryd. Ar wahân i pan ofynnir am hynny yn benodol, ni ofynnir am farn ar fwriad y polisi ei hun, sydd eisoes wedi bod yn destun ymgynghoriad

drwy'r Papur Gwyrdd ac sydd wedi'i sefydlu gan y Bil. Mae'n gofyn a yw'r wybodaeth sy'n cael ei rhoi wedi'i hadlewyrchu'n briodol yn y rheoliadau drafft.

Bydd Cwestiynau Gorfodol yn gofyn i ymatebwyr nodi i ba raddau maent yn cytuno neu'n anghytuno â'r cwestiwn a ofynnir o dan bob adran. Mae [29] cwestiwn o'r math hwn. Bydd yr ymatebwyr yn cael cyfle i egluro eu rhesymeg dros eu hymateb os ydynt wedi dweud eu bod yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf. Dylid cyfyngu sylwadau i ddatgan a yw'r bwriad hwn wedi cael ei drosi i'r offeryn statudol drafft ac a yw'r drafftio yn achosi unrhyw anghysonderau, bylchau neu orgyffwrdd â darpariaethau mewn mannau eraill yn yr offeryn statudol drafft neu'r Bil. Yr eithriadau i hyn yw'r adran ar Ddarpariaethau Pontio a'r cwestiynau atodol ar yr hysbysiad ymgysylltu rhagarweiniol â'r farchnad, yr hysbysiad marchnad ddynamig cyfleustodau cymwys a'r hysbysiad dyfarnu contract, pan fydd y cwestiynau'n ymwneud a'r bwriad polisi neu'r dull a amlinellir yn yr ymgynghoriad hwn. Yn ogystal, mae dau gwestiwn yn ymwneud â'r Gymraeg.

## Y camau nesaf

Ar ôl ystyried yr ymatebion i ddwy ran yr ymgynghoriad, bydd fersiwn derfynol yr is-ddeddfwriaeth yn cael ei gosod yn y Senedd. Bydd yn cyfuno'r darpariaethau yn y ddau ymgynghoriad yn un offeryn.

Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i roi o leiaf chwe mis o rybudd ynghylch rhoi'r weithdrefn newydd ar waith, ac rydym yn disgwyl mai adeg gosod yr is-ddeddfwriaeth fyddai'r cynharaf y byddai'r rhybudd hwn yn cael ei roi.

Felly, yn amodol ar ganlyniadau'r ymgynghoriad hwn, rydym yn disgwyl y bydd y weithdrefn newydd yn weithredol yn ystod hydref 2024.

## Sut mae ymateb

Os nad ydych chi'n ymateb drwy'r holiadur ar-lein, a fyddech cystal â dychwelyd y ffurflen ymateb hon wedi'i llenwi at DiwygioCaffael.YmgynghoriadRhan2@Llyw.cymru / ProcurementReform.ConsultationPart2@Gov.wales neu

Grŵp y Prif Swyddog Gweithredu
Yr Is-adran Caffael Masnachol
Tîm Diwygio'r Broses Gaffael
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Wrth ymateb i'r ymgynghoriad, nodwch eich enw, eich sefydliad ac a ydych yn ymateb fel Unigolyn neu ar ran Sefydliad.

Rhaid derbyn ymatebion i'r ymgynghoriad erbyn 23.45 ar 25/08/23.

Dylech ystyried ac ateb yr holl gwestiynau Gorfodol, gan ddewis un o'r atebion canlynol pan nodir hynny os gwelwch yn dda:

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Amh

Os ydych wedi dweud eich bod yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf ar gyfer unrhyw gwestiynau gorfodol, rhowch ragor o wybodaeth yn hyn o beth yn y cwestiynau atodol drwy ddefnyddio'r blwch testun rhydd.

Cadwch at y nifer mwyaf o nodau a ganiateir (dim mwy na 2000 nod). Ni fydd unrhyw nodau ychwanegol dros y terfyn hwn yn cael eu hystyried.

Mae ymatebion i ymgyngoriadau yn debygol o gael eu cyhoeddi, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw yn yr amgylchiadau hyn, ticiwch y blwch lle nodir hynny ar y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad.

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

**Manylion cyswllt**

I gael rhagor o wybodaeth:

Grŵp y Prif Swyddog Gweithredu
Yr Is-adran Caffael Masnachol
Tîm Diwygio'r Broses Gaffael
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: DiwygioCaffael.YmgynghoriadRhan2@Llyw.cymru / ProcurementReform.ConsultationPart2@Gov.wales

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

**Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU)**

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer ymgyngoriadau Llywodraeth Cymru a thros unrhyw ddata personol rydych yn eu darparu fel rhan o'ch ymateb i'r ymgynghoriad.

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn, ac a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth ynglŷn â sut byddant yn arfer eu swyddogaethau cyhoeddus. Y sail gyfreithlon dros brosesu gwybodaeth yn yr ymarfer casglu data hwn yw ein tasg gyhoeddus; hynny yw, arfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru. (Erthyl 6(1)(e))

Bydd unrhyw ymateb y byddwch yn ei anfon atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw neu sy'n cynllunio ymgyngoriadau pellach. Mewn ymgyngoriadau ar y cyd, gall hyn hefyd gynnwys awdurdodau cyhoeddus eraill. Pan fydd Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, efallai y bydd trydydd parti achrededig yn cael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn (ee sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghorol). Dim ond o dan gontract y gwneir unrhyw waith o'r fath. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn pennu gofynion llym ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

I ddangos bod yr ymgynghoriad wedi cael ei gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw neu gyfeiriad gael ei gyhoeddi, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn eu golygu cyn eu cyhoeddi.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth ac y gallai Llywodraeth Cymru fod o dan rwymedigaeth gyfreithiol i ddatgelu rhywfaint o wybodaeth.
Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, bydd yr adroddiadau cyhoeddedig hyn yn cael eu cadw am gyfnod amhenodol. Bydd unrhyw ddata sydd gan Lywodraeth Cymru amdanoch fel arall yn cael eu cadw am dair blynedd fan bellaf.

**Eich hawliau**

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych chi hawl:

- i gael gwybod am y data personol sy'n cael eu cadw amdanoch chi, ac i gael gweld y data hynny
- i fynnu ein bod yn cywiro gwallau yn y data hynny

- i wrthwynebu neu atal prosesu (mewn amgylchiadau penodol)
- i'ch data gael eu 'dileu' (mewn amgylchiadau penodol)
- i gludo data (mewn amgylchiadau penodol)
- i roi cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw a'r ffordd mae'r wybodaeth yn cael ei defnyddio, neu os ydych chi am arfer eich hawliau o dan reoliad GDPR y DU, defnyddiwch y manylion cyswllt isod:

Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ
e-bost: dataprotectionofficer@gov.wales

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaer SK9 5AF
Ffôn: 0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

## Pynciau ar gyfer ymgynghori arnynt a chwestiynau cysylltiedig

### Hysbysiad Piblinell (Yn rheoliad 33 o'r offeryn statudol drafft)

Diben yr hysbysiad piblinell yw rhoi rhag-rybudd i'r farchnad am gyfleoedd contractau cyhoeddus sydd ar y gweill ac amcangyfrifir y bydd eu gwerth dros £2 miliwn ac mae'r awdurdod contractio yn cynnig ymrwymo iddynt yn ystod y 18 mis nesaf. Mae hyn yn rhoi'r cyfle i gyflenwyr fynd ar drywydd cyfleoedd posibl, gan eu galluogi i benderfynu a ydynt yn dymuno cynnig ai peidio. Bydd hyn o fudd penodol i fusnesau bach a chanolig a mentrau gwirfoddol, cymunedol a chymdeithasol drwy roi amser iddynt gynllunio ar gyfer gwaith yn y dyfodol, gan sicrhau marchnad gystadleuol a bywiog. Mae'r offeryn statudol drafft yn amlinellu'r wybodaeth sydd ei hangen mewn hysbysiad piblinell.

Rhaid cyhoeddi'r hysbysiad cyn pen 56 diwrnod o ddiwrnod cyntaf y flwyddyn ariannol berthnasol a bydd yn cynnwys manylion megis natur yr hyn sydd i'w gaffael, pryd y disgwylir iddo gael ei hysbysebu, a phryd y bydd disgwyl i'r gwaith darparu ddechrau.

Er mai bwriad yr hysbysiad piblinell yw rhoi syniad i gyflenwyr o gynlluniau awdurdodau contractio, mae'n bwysig nodi nad yw'r awdurdodau contractio yn rhwym wrth yr wybodaeth sydd yn yr hysbysiad a allai newid dros amser a'r bwriad yw ei ddiweddaru i wella cywirdeb.

Nid oes yn rhaid i gyfleustodau preifat gyhoeddi hysbysiad piblinell.

CWESTIWN GORFODOL 1: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y bydd yr hysbysiad piblinell, fel y'i disgrifir yn yr offeryn statudol drafft, yn rhag-rybudd defnyddiol i gyflenwyr am gyfleoedd contractio sydd ar y gweill?

CWESTIWN 2: Os gwnaethoch chi ateb anghytuno neu anghytuno'n gryf i Gwestiwn 1, eglurwch pam nad ydych yn credu bod hyn yn cyflawni'r bwriad polisi.

**Hysbysiad Caffael wedi’i Gynllunio (wedi’i gynnwys yn rheoliad 11 o’r offeryn statudol drafft)**

Bwriad yr hysbysiad caffael wedi'i gynllunio yw rhoi cymaint â phosibl o wybodaeth ymlaen llaw i’r farchnad er mwyn i bartïon a allai fod â diddordeb benderfynu a yw’r broses caffael sydd ar y gweill yn rhywbeth maent yn dymuno cynnig amdani, a’u bod yn cael cymaint o amser â phosibl i baratoi. Bydd modd cyhoeddi’r hysbysiad hwn unrhyw bryd cyn cyhoeddi’r hysbysiad tendro. Os bydd yr hysbysiad hwn yn cael ei gyhoeddi o leiaf 40 diwrnod (a dim mwy na blwyddyn) cyn cyhoeddi’r hysbysiad tendro yna mae’r hysbysiad yn hysbysiad caffael wedi'i gynllunio ‘cymwys’ ac mae modd i’r awdurdod contractio gynnig cyfnodau tendro llai o ddeg diwrnod o leiaf, os yw’n dymuno gwneud hynny.

Mae pob awdurdod contractio (gan gynnwys cyfleustodau) yn gallu cyhoeddi hysbysiad caffael wedi’i gynllunio mewn perthynas ag unrhyw fath o broses caffael ar gyfer contract cyhoeddus a ddaw o dan y Bil Caffael.

Nid oedd yr hysbysiad caffael wedi’i gynllunio’n cael ei ddisgrifio fel hysbysiad ar wahân yn ymgynghoriad Papur Gwyrdd Llywodraeth y DU, gan ei fod wedi cael ei integreiddio i’r hysbysiad cynllunio a phiblinell. Ar ôl ymgysylltu â rhanddeiliaid, penderfynodd Llywodraeth y DU rannu’r hysbysiad hwn er mwyn tanlinellu ei ddiben penodol i ddarparu gwybodaeth ar gyfer y farchnad ymlaen llaw a rhoi cyfle i leihau amserlenni tendro.

CWESTIWN GORFODOL 3: I ba raddau ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno bod cynnwys yr hysbysiad sy’n cael ei ddisgrifio yn yr offeryn statudol drafft yn darparu’r wybodaeth sydd ei hangen ar gyflenwyr i benderfynu os oes ganddynt ddiddordeb ai peidio yn y cyfle caffael sy’n cael sylw yn yr hysbysiad?

CWESTIWN 4: Os gwnaethoch chi ateb anghytuno neu anghytuno’n gryf i Gwestiwn 3, eglurwch pam nad ydych yn credu bod hyn yn cyflawni’r bwriad polisi.

**Hysbysiad Ymgysylltu Rhagarweiniol â’r Farchnad (wedi’i gynnwys yn rheoliad 12 o’r offeryn statudol drafft)**

Mae arnom eisiau annog rhagor o awdurdodau contractio i ymgysylltu’n rhagarweiniol â’r farchnad. Er nad yw hyn yn orfodol, mae’r wybodaeth a fydd yn cael ei chasglu yn ystod y cam hwn yn gallu bod yn hynod werthfawr i’r awdurdod contractio wrth iddo egluro ei ofynion, asesu capasiti’r farchnad a datblygu ei strategaeth gaffael.

Mae cymal 17 o’r Bil, yn gwneud darpariaeth i awdurdodau contractio gyhoeddi hysbysiad ymgysylltu rhagarweiniol â’r farchnad pan fydd yr ymgysylltu hwn yn cael ei gynnal neu wedi cael ei gynnal.

Mae modd defnyddio’r hysbysiad i wahodd cyflenwyr i gymryd rhan mewn ymgysylltu rhagarweiniol â’r farchnad a/neu i roi gwybod i’r farchnad bod yr ymgysylltiad hwn wedi digwydd.

Dylid cyhoeddi’r hysbysiad ymgysylltu rhagarweiniol â’r farchnad cyn cyhoeddi hysbysiad tendro. Os bu ymgysylltu, ond ni chafodd hysbysiad ymgysylltu rhagarweiniol â’r farchnad ei gyhoeddi, rhaid i’r hysbysiad tendro gynnwys y rhesymau am beidio â chyhoeddi.

Er bod y penderfyniad i beidio â chyhoeddi hysbysiad ymgysylltu rhagarweiniol â’r farchnad yn cael ei wneud yn ôl disgresiwn llwyr yr awdurdod contractio, rhaid gwneud y penderfyniad hwn yng nghyd-destun ei rwymedigaethau yng nghymalau 12 (caffael a ddaw o dan brif ddarpariaethau’r Bil: amcanion) ac 16 (ymgysylltu rhagarweiniol â’r farchnad) y Bil.

**Cyfleustodau Preifat (Yn rheoliad 35 o’r offeryn statudol drafft)**

Yn yr offeryn statudol drafft, mae Llywodraeth y DU wedi cynnwys gwelliant drafft sy’n golygu na fydd y gofyniad i gyhoeddi hysbysiad ymgysylltu rhagarweiniol â’r farchnad sydd yng nghymal 17 y Bil yn berthnasol i gyfleustodau preifat. Mae hyn yn defnyddio’r pŵer yn y Bil yng nghymal 120 i ddiwygio’r Ddeddf at ddiben lleihau’r rheoleiddio ar gyfer cyfleustodau preifat

Mae Llywodraeth y DU yn ymgynghori ar y gwelliant arfaethedig hwn ar ran cyfleustodau preifat a gedwir yn ôl ac awdurdodau wedi’u trosglwyddo i Ogledd Iwerddon.

Yn yr un modd bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio eu pwerau yn y Bil Caffael i ddiwygio darpariaethau’r Bil fel na fydd y gofyniad i gyhoeddi hysbysiad ymgysylltu rhagarweiniol â’r farchnad yn berthnasol i gyfleustodau preifat, ac maent yn ymgynghori ar y gwelliant arfaethedig hwn ar ran awdurdodau datganoledig Cymru.

Bydd cyfleustodau preifat yn cael eu hannog i ddefnyddio’r hysbysiad, ond os byddant yn dewis peidio â gwneud hynny, ni fyddem yn disgwyl iddynt egluro hyn.

CWESTIWN GORFODOL 5: I ba raddau ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno bod yr hysbysiad fel y'i nodir yn yr offeryn statudol drafft yn cyflawni’r bwriad polisi o annog

awdurdodau contractio i ymgysylltu’n rhagarweiniol â’r farchnad mewn ffordd agored a thryloyw?

CWESTIWN 6: Os gwnaethoch chi ateb anghytuno neu anghytuno’n gryf i Gwestiwn 3, eglurwch pam nad ydych yn credu bod hyn yn cyflawni’r bwriad polisi.

CWESTIWN 7: I ba raddau ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno y dylai cyfleustodau preifat gael eu hesemptio o’r gofynion i gyhoeddi hysbysiad ymgysylltu rhagarweiniol â’r farchnad yng nghymal 17 o’r Bil?

CWESTIWN 8: Os gwnaethoch chi ateb anghytuno neu anghytuno’n gryf i Gwestiwn 7, rhowch eich rhesymau.

**Hysbysiad Tendro (Yn rheoliad 13 i 17 o'r offeryn statudol drafft)**

Mae'r Bil yn mynnu bod awdurdodau contractio yn cyhoeddi hysbysiad tendro er mwyn hysbysebu a chychwyn proses tendro gystadleuol. Diben hyn yw sicrhau bod cyflenwyr a dinasyddion yn gallu gweld beth mae'r awdurdod contractio yn mynd i'r farchnad i'w gaffael. Mae hyn yn galluogi cyflenwyr i benderfynu a ydynt yn dymuno cymryd rhan yn y broses caffael. Mae hyn yn galluogi dinasyddion i weld y broses sy'n cael ei defnyddio i dendro contractau ac ar gyfer pa nwyddau a gwasanaethau.

Bydd hysbysiad tendro yn wahoddiad i gyflwyno tendr ar gyfer y contract o dan y weithdrefn agored a, gallai fod yn wahoddiad i dendro neu'n wahoddiad i gyflenwyr gyflwyno cais i gymryd rhan o dan y weithdrefn hyblyg gystadleuol. Yn y naill achos neu'r llall, rhaid ei gyhoeddi ar y platfform digidol canolog drwy GwerthwchiGymru [gweler t30]. Mae'r Bil yn mynnu bod awdurdodau contractio yn darparu unrhyw ddogfennau tendr cysylltiedig ar y cyd â'r hysbysiad tendro ac yn unol â'r rheolau sy'n ymwneud â'i ddefnyddio. Nid yw'r hysbysiad tendro yn berthnasol wrth ddyfarnu'n uniongyrchol, lle mae'r hysbysiad tryloywder yn chwarae rôl debyg.

Er bod y Bil yn rhoi cryn ryddid i awdurdodau contractio ddewis y weithdrefn a fydd yn cyflawni eu gofynion nhw orau, rhaid iddynt ddatgan pa broses a fydd yn cael ei dilyn ar y cychwyn cyntaf. Er ei bod hi'n bosibl addasu rhywfaint arnynt, mae'n rhaid i awdurdodau contractio ddilyn y prosesau a nodir yn eu hysbysiadau tendro, a bydd methu â gwneud hynny'n golygu eu bod yn agored i gael eu herio.

Mae'r gofynion hyn yn berthnasol i fframweithiau yn yr un modd ag y maent yn berthnasol i unrhyw weithdrefn caffael, gyda rhai gofynion ychwanegol sy'n benodol i'r fframwaith, gan gynnwys:

- enwi'r holl awdurdodau contractio sy'n cael dyfarnu contractau o dan y fframwaith yn ystod oes y fframwaith;
- enwi natur, cwmpas ac amcangyfrif o uchafswm gwerth y gwaith, gwasanaethau neu gyflenwadau mae modd eu dyfarnu o dan y fframwaith;
- pennu a yw'r fframwaith yn fframwaith agored neu'n fframwaith caeedig;
- egluro a yw'r awdurdodau contractio yn bwriadu penodi uchafswm o gyflenwyr i'r fframwaith ac, os felly, beth yw'r uchafswm neu, fel arall, rhoi ystod.

Mae hefyd angen hysbysiadau tendro yng nghyswllt rhai contractau o dan y trothwy, pan fydd yr awdurdod contractio yn cynnig y cyfle'n gyhoeddus: mae'r offeryn statudol drafft yn gwneud darpariaeth ar gyfer y gofynion sydd ynghlwm wrth y rhain.

CWESTIWN GORFODOL 9: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod yr hysbysiad tendro fel y'i nodir yn yr offeryn statudol drafft yn galluogi awdurdod contractio i hysbysebu a chychwyn gweithdrefn gystadleuol yn effeithiol?

CWESTIWN 10: Os gwnaethoch chi ateb anghytuno neu anghytuno'n gryf i Gwestiwn 9, eglurwch pam nad ydych yn credu bod hyn yn cyflawni'r bwriad polisi.

**Hysbysiad Marchnad Ddynamig Cyfleustodau a Marchnad Ddynamig, gan gynnwys Hysbysiad Marchnad Ddynamig Cyfleustodau Cymwys (Yn rheoliad 18 o'r offeryn statudol drafft)**

Mae'r Bil Caffael yn disodli systemau prynu a chymhwyso dynamig gydag un teclyn prynu masnachol newydd o'r enw Marchnad Ddynamig. Mae awdurdodau contractio, gan gynnwys cyfleustodau, yn gallu defnyddio a sefydlu Marchnadoedd Dynamig. Mae cyfleustodau hefyd yn gallu sefydlu a defnyddio Marchnad Ddynamig Cyfleustodau er mwyn dyfarnu contractau cyfleustodau. At ei gilydd mae Marchnadoedd Dynamig a Marchnadoedd Dynamig Cyfleustodau yn debyg iawn gyda gwahaniaethau bach fel y sail ar gyfer codi ffioedd.

Bydd angen cyhoeddi hysbysiad marchnad ddynamig ar amryw adegau ynghylch sefydlu Marchnad Ddynamig neu Farchnad Ddynamig Cyfleustodau, sut bydd yn gweithio ac, yn achos Marchnad Ddynamig yn unig, pryd bydd yn dod i ben (nid oes angen hysbysiad pan fydd Marchnad Ddynamig Cyfleustodau wedi'i sefydlu gan gyfleustod preifat yn dod i ben). Nid yw'r hysbysiad hwn yn amlinellu'r gofynion ar gyfer contractau cyhoeddus a ddyfernir drwy gyfeirio at Farchnad Ddynamig neu Farchnad Ddynamig Cyfleustodau.

Bwriad y polisi yw bod Marchnadoedd Dynamig a Marchnadoedd Dynamig Cyfleustodau yn fwy hyblyg na fframweithiau, heb gyfyngiadau ar eu hyd, a bod modd derbyn cyflenwyr newydd drwy gydol eu hoes.

**Hysbysiad Marchnad Ddynamig Cyfleustodau Cymwys (Yn rheoliad 18 o'r offeryn statudol drafft)**

Mae Marchnad Ddynamig Cyfleustodau yn cael ei sefydlu er mwyn i gyfleustodau ddyfarnu contractau cyfleustodau. Mae modd sefydlu Marchnad Ddynamig Cyfleustodau naill ai drwy gyfeirio at hysbysiad Marchnad Ddynamig neu hysbysiad Marchnad Ddynamig Cyfleustodau Cymwys.

Diben hysbysiad Marchnad Ddynamig Cyfleustodau Cymwys, yn yr un modd â'r hysbysiad Marchnad Ddynamig, yw rhoi gwybod i gyflenwyr o'r bwriad i sefydlu Marchnad Ddynamig Cyfleustodau, yn ogystal â darparu manylion ynghylch ei sefydlu, ei addasu a'i ddirwyn i ben. Mae hysbysiad Marchnad Ddynamig Cyfleustodau Cymwys yn wahanol i hysbysiad Marchnad Ddynamig oherwydd ei fod yn rhaid iddo ddarparu cymaint o'r wybodaeth y byddai ei hangen mewn hysbysiad tendro ar gyfer dyfarnu contract drwy gyfeirio at y Farchnad Ddynamig Cyfleustodau dan sylw ag sydd ar gael adeg cyhoeddi'r hysbysiad Marchnad Ddynamig Cyfleustodau Cymwys.

Ar ben hynny, mae'r hysbysiad Marchnad Ddynamig Cyfleustodau Cymwys yn rhoi gwybod i'r farchnad pryd fydd proses caffael yn cychwyn drwy gyfeirio at y Farchnad Ddynamig Cyfleustodau ganlyniadol yn y dyfodol. Dim ond aelodau o'r Farchnad Ddynamig Cyfleustodau fydd yn cael gwybod am unrhyw gyfleoedd yn y dyfodol i gynnig am gontract cyhoeddus. Mae hyn yn golygu nad oes yn rhaid **cyhoeddi** hysbysiad tendro.

Yn lle hynny, mae'n rhaid cyhoeddi hysbysiad tendro i aelodau o'r farchnad yn unig ac mae modd ei roi i gyflenwyr sydd wedi cyflwyno cais i fod yn aelodau o'r farchnad (neu ran o'r farchnad) ond nid ydynt wedi cael eu derbyn neu eu gwrthod eto. Bydd angen i'r hysbysiad tendro gynnwys rhagor o fanylion sy'n berthnasol i'r broses caffael benodol dan sylw a rhaid iddo gynnwys unrhyw fanylion y mae'n rhaid eu cael fel arfer mewn hysbysiad tendro nad ydynt eisoes wedi'u darparu yn yr hysbysiad Marchnad Ddynamig Cyfleustodau Cymwys.

Roedd ymateb Llywodraeth y DU i ymgynghoriad y Papur Gwyrdd yn cynnig y byddai'r weithdrefn newydd yn debyg i'r systemau cymhwyso fel teclyn ar wahân i gyfleustodau o dan delerau tebyg i'r Rheoliadau Contractau Cyfleustodau er mwyn cynnal sut mae cyfleustodau'n gweithredu ar hyn o bryd. Mae'r weithdrefn newydd yn debyg drwy beidio â mynnu bod yn rhaid cyhoeddi hysbysiad tendro ar gyfer contractau sy'n cael eu dyfarnu drwy gyfeirio at Farchnad Ddynamig Cyfleustodau a sefydlwyd drwy ddefnyddio hysbysiad Marchnad Ddynamig Cyfleustodau Cymwys.

CWESTIWN GORFODOL 11: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod hysbysiad y Farchnad Ddynamig fel y'i nodir yn yr offeryn statudol drafft yn caniatáu i awdurdod contractio greu marchnad ddynamig (gan gynnwys marchnad ddynamig cyfleustodau) ar gyfer dyfarnu contractau cyhoeddus yn y dyfodol.

CWESTIWN 12: Os gwnaethoch chi ateb anghytuno neu anghytuno'n gryf i Gwestiwn 11, eglurwch pam nad ydych yn credu bod hyn yn cyflawni'r bwriad polisi.

CWESTIWN 13: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod hysbysiad y Farchnad Ddynamig Cyfleustodau Cymwys fel y'i nodir yn yr offeryn statudol drafft yn caniatáu i awdurdod contractio greu marchnad ddynamig cyfleustodau sydd yr un fath â system cymhwyso o dan y rheolau presennol?

CWESTIWN 14: Os gwnaethoch chi ateb anghytuno neu anghytuno'n gryf i Gwestiwn 13, eglurwch pam nad ydych yn credu bod hyn yn cyflawni'r bwriad polisi.

**Hysbysiad Tryloywder (Yn rheoliad 19 o’r offeryn statudol drafft)**

Mae’r Bil yn nodi bod yn rhaid i awdurdod contractio gyhoeddi hysbysiad tryloywder cyn dyfarnu contract o dan ddarpariaethau dyfarnu’n uniongyrchol. Diben yr hysbysiad tryloywder yw rhoi gwybod i’r farchnad bod awdurdod contractio yn bwriadu dyfarnu contract yn uniongyrchol a sicrhau bod y penderfyniad hwn yn dryloyw. Mae’n rhoi cyfle i bartïon sydd â diddordeb graffu ar y rhesymau dros ddyfarnu’n uniongyrchol i wneud yn siŵr eu bod yn cael eu defnyddio’n gywir.

Mae diben yr hysbysiad hwn yn debyg i ddiben yr ‘hysbysiad tryloywder ex-ante gwirfoddol’ o dan weithdrefn yr Undeb Ewropeaidd. Fodd bynnag, mae’r hysbysiad tryloywder ex-ante gwirfoddol yn cael ei gyhoeddi’n wirfoddol ac yn cychwyn cyfnod segur ychydig cyn ymrwymo i gontract, mae’n rhaid cyhoeddi’r hysbysiad tryloywder (ac eithrio wrth ddyfarnu’n uniongyrchol: contractau dewis defnyddiwr). Mae’n cael ei ddefnyddio’r gyda’r hysbysiad dyfarnu contract, sy’n angenrheidiol cyn i’r awdurdod contractio ymrwymo i’r contract a bydd (yn y rhan fwyaf o achosion) yn cychwyn y cyfnod segur.

Nid oes cyfnod penodol rhwng cyhoeddi’r hysbysiad tryloywder a chyhoeddi’r hysbysiad dyfarnu contract.

CWESTIWN GORFODOL 15: I ba raddau ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno y bydd yr hysbysiad tryloywder fel y’i nodir yn yr offeryn statudol drafft yn rhoi amlygrwydd i brosesau caffael sydd ar y gweill a fydd yn cael eu dyfarnu drwy ddefnyddio’r weithdrefn dyfarnu’n uniongyrchol?

CWESTIWN 16: Os gwnaethoch chi ateb anghytuno neu anghytuno’n gryf i Gwestiwn 16, eglurwch pam nad ydych yn credu bod hyn yn cyflawni’r bwriad polisi.

**Hysbysiad Terfynu Proses Caffael (Yn rheoliad 27 o’r offeryn statudol drafft )**

Mae’r hysbysiad terfynu proses caffael yn rhoi gwybod i’r farchnad bod awdurdod contractio wedi penderfynu peidio â bwrw ymlaen â phroses caffael. Dim ond os bydd hysbysiad tendro neu hysbysiad tryloywder wedi cael eu cyhoeddi ar gyfer y broses caffael y bydd angen cyhoeddi’r hysbysiad hwn.

Bob tro bydd hysbysiad tryloywder yn cael ei gyhoeddi i gychwyn proses caffael, mae’n creu cofnod data o oes y broses caffael honno ac unrhyw gontract sy’n deillio ohoni. Bydd methu â chadarnhau bod proses caffael wedi cael ei therfynu yn golygu na fydd cyflenwyr yn ymwybodol o’r canslo a bydd data anghyflawn a chofnodion anghywir yn aros ar y platfform canolog yn barhaol. Nid yw hyn yn ddefnyddiol i unrhyw sy’n monitro ac yn defnyddio’r data hyn. Rhaid cael hysbysiad terfynu proses caffael i sicrhau bod y cofnod data a stori lawn y broses caffael yn cael eu cwblhau.

Mae hysbysiad terfynu proses caffael yn gysyniad newydd sydd yn y rheoliadau er mwyn darparu gwybodaeth fanwl i’r farchnad ac i gyflenwyr er mwyn iddynt ddeall bod bwriad yr awdurdod contractio wedi newid, lleihau costau cynnig i gyflenwyr a rhoi mwy o sicrwydd i’r farchnad. Mae’n berthnasol i bob proses caffael ac eithrio’r rheini sy’n cael eu creu gan gyfleustodau preifat.

CWESTIWN GORFODOL 17: I ba raddau ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno bod cynnwys yr hysbysiad terfynu, fel y’i nodir yn yr offeryn statudol drafft, yn rhoi mwy o dryloywder am brosesau caffael nad ydynt wedi arwain at gontract?

CWESTIWN 18: Os gwnaethoch chi ateb anghytuno neu anghytuno’n gryf i Gwestiwn 17, eglurwch pam nad ydych yn credu bod hyn yn cyflawni’r bwriad polisi.

**Crynodeb o'r Asesiad (Yn rheoliad 21 o'r offeryn statudol drafft)**

Mae crynodeb o'r asesiad yn gwneud yr un fath â'r hyn sy'n cael ei alw ar hyn o bryd yn llythyr cyfnod segur (yn aml mae hwn yn cael ei alw yn llythyr ôl-drafodaeth). Mae'r Bil yn mynnu bod yn rhaid rhoi crynodeb o'r asesiad i unrhyw gyflenwr a gyflwynodd dendr wedi'i asesu yng nghyswllt proses caffael gystadleuol o dan gymal 19 o'r Bil. Nid oes yn rhaid cyhoeddi crynodeb o'r asesiad wrth ddyfarnu contract yn ôl y gofyn o dan fframwaith, gan fod y contract yn ôl y gofyn yn cael ei ddyfarnu yn unol â'r weithdrefn a nodir yn y fframwaith ei hun (nid o dan gymal 19), er y byddid yn hybu ei ddarparu.

Mae'r offeryn statudol drafft yn cynnwys manylion yr hyn mae angen ei gynnwys yn y ddogfen crynodeb o'r asesiad. Bydd y crynodeb o'r asesiad yn golygu bod cyflenwr, a oedd wedi cyflwyno tendr sydd wedi'i asesu (fel y diffinnir yng nghymal 50 y Bil), yn cael gwybod y sgoriau a gafodd ei dendr o ganlyniad i'r broses asesu derfynol, ar ddiwedd y broses gaffael, sy'n pennu'r Tendr Mwyaf Manteisiol ac esboniad, gan gyfeirio at gynnwys y cynnig, ynghylch pam rhoddwyd sgoriau penodol ar gyfer pob maen prawf.

Bydd pob cyflenwr a gyflwynodd dendr wedi'i asesu yn cael crynodeb preifat o'r asesiad sy'n ymwneud â'i gynnig ac, os yw'n aflwyddiannus, bydd hefyd yn cael copi o grynodeb o asesiad y cyflenwr buddugol. Bydd y copi hwnnw'n cael ei olygu, yn unol â chymal 94 y Bil, er mwyn diogelu unrhyw wybodaeth sensitif.

Bydd darparu'r wybodaeth hon yn golygu bod y cyflenwr yn gallu deall pam roedd ei gais yn llwyddiannus neu'n aflwyddiannus.

Rhaid darparu crynodebau o'r asesiadau ar yr un pryd i bob cyflenwr a gyflwynodd dendr wedi'i asesu ar yr un pryd, a chyn gallu cyhoeddi'r hysbysiad dyfarnu contract (sy'n cychwyn y cyfnod segur).

Yn ogystal â sicrhau bod cyflenwyr yn parhau i gael esboniad ynghylch pam eu bod wedi ennill y contract ai peidio, nod yr offeryn statudol drafft yw sicrhau mwy o gysondeb ar draws crynodebau o asesiadau ni waeth pa awdurdod contractio sydd wedi darparu'r wybodaeth, drwy nodi'n glir beth mae angen mynd i'r afael ag ef a lleihau'r potensial ar gyfer dehongliadau gwahanol.

Mae hefyd yn ceisio cwtogi'r amser mae'n ei gymryd i greu'r crynodebau (o'i gymharu â'r amser mae'n ei gymryd i ddrafftio llythyrau cyfnod segur) drwy ddileu'r rhwymedigaeth i gymharu'r cais llwyddiannus â chais aflwyddiannus yn uniongyrchol er mwyn dangos y manteision cymharol rhyngddynt. Yn lle hynny, bydd y manteision yn amlwg drwy ddarllen crynodeb o asesiad y cyflenwr llwyddiannus ochr yn ochr â chrynodeb y cyflenwr aflwyddiannus. Mae hyn yn rhoi cyfle i awdurdodau contractio ddefnyddio gwybodaeth sydd eisoes wedi cael ei chynhyrchu yn ystod y broses asesu ac mae'n golygu bod modd drafftio crynodebau unwaith yn unig, yn hytrach na diwygio gwybodaeth ar gyfer pob cyflenwr aflwyddiannus.

Nid yw'r offeryn statudol drafft yn mynnu bod yr awdurdod contractio yn darparu unrhyw adborth ychwanegol a allai helpu cyflenwyr i wella tendrau yn y dyfodol, ond bydd canllawiau'n dal i hybu hynny, pan fo hynny'n ymarferol.

CWESTIWN GORFODOL 19: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y bydd cynnwys y crynodeb o'r asesiad (ynghyd â darparu crynodeb o asesiad y cyflenwr llwyddiannus) yn rhoi digon o wybodaeth i gyflenwyr er mwyn iddynt allu deall yn rhesymol pam bod eu cynnig yn llwyddiannus neu'n aflwyddiannus, wrth leihau'r amser mae'n ei gymryd i awdurdodau contractio ddarparu'r wybodaeth hon?

CWESTIWN 20: Os gwnaethoch chi ateb anghytuno neu anghytuno'n gryf i Gwestiwn 19, eglurwch pam nad ydych yn credu bod hyn yn cyflawni'r bwriad polisi.

**Hysbysiad Dyfarnu Contract (Yn rheoliad 20 o'r offeryn statudol drafft)**

Mae'r hysbysiad dyfarnu contract yn rhoi gwybod i'r farchnad am ganlyniad proses caffael ac mae'n rhoi gwybod i'r farchnad bod contract ar fin cael ei ymrwymo. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd yn cychwyn cyfnod segur sy'n rhoi ffenestr i herio'r penderfyniad dyfarnu cyn llofnodi'r contract. Mae'r hysbysiad hwn hefyd yn gallu rhoi gwybod i'r farchnad os bydd awdurdod contractio yn penderfynu peidio â bwrw ymlaen ag un lot neu ragor mewn proses caffael ar ôl i'r cyfnod tendro ddod i ben.

Ni cheir ymrwymo i gontract sy'n cael ei ddyfarnu ar ôl gweithdrefn tendro gystadleuol heb gyhoeddi'r hysbysiad dyfarnu contract yn gyntaf a chyhoeddi'r crynodebau o'r asesiadau yng nghyswllt y tendrau a oedd wedi'u cynnwys yn yr asesiad terfynol. Bydd yr hysbysiad dyfarnu contract yn golygu bod angen i awdurdod contractio gadarnhau'r dyddiad y cafodd y crynodebau o'r asesiadau eu darparu.

Mae'r gofyniad i gyhoeddi hysbysiad dyfarnu contract yr un fath ar gyfer fframweithiau ag ar gyfer unrhyw gontract arall ac mae'n angenrheidiol ar gyfer sefydlu fframweithiau agored a chaeedig. Fodd bynnag, mae rhai contractau penodol wedi'u hamlinellu yn y Bil lle nad oes angen i'r awdurdod contractio gyhoeddi hysbysiad dyfarnu contract ar eu cyfer, sef:

- dyfarnu'n uniongyrchol: contractau dewis defnyddiwr;
- contractau yn ôl y gofyn sy'n cael eu dyfarnu o dan fframweithiau amddiffyn a diogelwch; a
- chontractau o dan y trothwy (wedi'u rheoleiddio)

**Cyfleustodau Preifat**

Rhaid cael hysbysiad dyfarnu contract ar gyfer contractau yn ôl y gofyn sy'n cael eu dyfarnu drwy unrhyw fframwaith arall.  Er nad yw wedi cael ei gynnwys yn yr offeryn statudol drafft eto, rydym yn bwriadu gwneud darpariaeth, yn unol â'n rhwymedigaethau rhyngwladol, i gynnwys hysbysiadau dyfarnu contractau sy'n cael eu cyhoeddi gan gyfleustodau preifat. Fel rhan o hyn, byddwn yn gofyn am fersiwn lai o'r hysbysiad dyfarnu contract ar gyfer contractau sy'n cael eu dyfarnu o dan fframwaith ar gyfer cyfleustodau preifat. Bydd y bwriad hwn yn cael ei adlewyrchu yn fersiwn derfynol yr offeryn statudol, yn amodol ar safbwyntiau a ddaw i law yn yr ymgynghoriad hwn.

CWESTIWN GORFODOL 21: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y bydd yr hysbysiad dyfarnu contract fel y'i nodir yn yr offeryn statudol drafft yn gyfrwng addas i dynnu sylw'r farchnad at fwriad yr awdurdod contractio i ymrwymo i gontract cyhoeddus a chychwyn y cyfnod segur?

CWESTIWN 22: Os gwnaethoch chi ateb anghytuno neu anghytuno'n gryf i Gwestiwn 21, eglurwch pam nad ydych yn credu bod hyn yn cyflawni'r bwriad polisi.

CWESTIWN GORFODOL 23: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno ei bod yn briodol i gyfleustodau preifat gyhoeddi fersiwn llai o'r hysbysiad dyfarnu contract ar gyfer contractau a ddyfernir o dan fframwaith?

CWESTIWN 24: Os gwnaethoch chi ateb anghytuno neu anghytuno'n gryf i Gwestiwn 23, eglurwch eich rhesymau.

**Hysbysiad Manylion Contract (Yn rheoliadau 22,23,24 25 a 26 o'r offeryn statudol drafft)**

Mae'r hysbysiad hwn yn rhoi gwybod i'r partïon sydd â diddordeb bod y contract wedi'i ymrwymo. Rhaid iddo felly ddod ar ôl yr hysbysiad dyfarnu contract bob tro ac unrhyw gyfnod segur cysylltiedig. Rhaid cyhoeddi hysbysiadau manylion contract yng nghyswllt rhai contractau o dan y trothwy hefyd, er nad oes cyfnod segur yn berthnasol i'r contractau hynny.

Diben yr hysbysiad yw rhoi gwybod i gyflenwyr a'r cyhoedd bod yr awdurdod contractio wedi ymrwymo i gontract o ganlyniad i weithdrefn caffael. Yn unol â'r Bil (cymal 53), rhaid cyhoeddi hwn o fewn 30 diwrnod i lofnodi'r contract (120 diwrnod os yw'r contract yn gontract cyffyrddiad ysgafn). Ar gyfer contractau hysbysadwy a reoleiddir o dan y trothwy, rhaid eu cyhoeddi o fewn cyfnod rhesymol.

Ar gyfer contractau sy'n werth dros £5m, mae offeryn statudol drafft y DU yn mynnu bod awdurdodau contractio yn cyhoeddi'r contract o fewn 90 diwrnod (180 diwrnod os yw'r contract yn gontract cyffyrddiad ysgafn). Nid fydd y gofyniad hwn yn berthnasol i awdurdodau contractio yng Nghymru oni bai fod awdurdod contractio yng Nghymru yn dyfarnu contract yn dilyn proses caffael o dan drefniant caffael a gedwir yn ôl. Gofynnir i'r ymatebwyr fod yn ymwybodol o hyn wrth ymateb i'r cwestiynau hyn.

Mae'r hysbysiad manylion contract hefyd yn nodi lle dylai'r awdurdod contractio, lle bo hynny'n berthnasol, gofnodi gwybodaeth am o leiaf dri Dangosydd Perfformiad Allweddol ar gyfer pob contract yn unol â chymal 52(1) o'r Bil.

Rhaid cyhoeddi'r hysbysiad hwn hefyd wrth sefydlu fframwaith. Bydd hyn yn dweud wrth bartïon sydd â diddordeb pa gyflenwyr sydd ar y fframwaith, beth yw telerau ac amodau craidd y cytundeb fframwaith cyffredinol ac unrhyw gontractau yn ôl y gofyn dilynol. Ar ben hynny, bydd 'contractau yn ôl y gofyn' y fframwaith yn cyhoeddi'r hysbysiad hwn i roi gwybod i bartïon sydd â diddordeb bod y contract yn ôl y gofyn wedi dechrau.

Nid yw'r gofyniad yn berthnasol i gontractau sy'n cael eu dyfarnu gan gyfleustodau preifat nac i gontractau dyfarnu'n uniongyrchol: dewis defnyddiwr.

CWESTIWN GORFODOL 25: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod cynnwys yr Hysbysiad Manylion Contract, fel y'i nodir yn yr offeryn statudol drafft, yn rhoi'r lefel angenrheidiol o dryloywder am fodolaeth a sylwedd contractau llywodraeth?

CWESTIWN 26: Os gwnaethoch chi ateb anghytuno neu anghytuno'n gryf i Gwestiwn 25, eglurwch pam nad ydych yn credu bod hyn yn cyflawni'r bwriad polisi.

**Hysbysiad Cydymffurfedd Taliadau (Yn rheoliad 28 o'r offeryn statudol drafft)**

Mae'r Bil yn cryfhau deddfwriaeth taliadau i sicrhau bod y sector cyhoeddus yn cael ei ddal i gyfrif am ei berfformiad. Mae'r Bil yn mynnu bod awdurdodau contractio yn cyhoeddi gwybodaeth benodol bob chwe mis, gan nodi pa mor gyflym maent wedi talu eu cyflenwyr.

Drwy greu storfa o wybodaeth am daliadau'r llywodraeth, ein nod yw gwella tryloywder perfformiad taliadau'r sector cyhoeddus, a'i gwneud hi'n haws craffu'n allanol ar y perfformiad hwnnw.

Bwriad yr Hysbysiad Cydymffurfedd Taliadau yw disodli a chryfhau rheoliad 113(7) o Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015. Y nod yw symud gofynion cyhoeddi'r sector cyhoeddus ar berfformiad taliadau yn nes at y rheini sy'n bodoli yn y sector preifat, gan ei gwneud hi'n haws cymharu'n uniongyrchol.

Nid yw'r hysbysiad hwn yn berthnasol i gyfleustodau preifat na chontractau sy'n cael eu dyfarnu gan ysgolion, ac nid yw'n berthnasol ychwaith i gontractau consesiwn.

Dyma'r prif wahaniaethau rhwng y weithdrefn newydd a'r hen weithdrefn:

- newid i adroddiadau bob chwe mis yn hytrach na rhai blynyddol,
- bydd angen mesur o'r adeg mae'r anfoneb yn cael ei derbyn, yn hytrach na'r adeg mae'n cael ei dilysu,
- y gofynion ychwanegol i ddarparu diwrnodau talu cyfartalog
- nifer yr anfonebau sydd wedi cael eu derbyn ond heb eu talu yn ystod y cyfnod, a'r
- angen am gymeradwyaeth cyfarwyddwr cyllid.

CWESTIWN GORFODOL 27: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod yr hysbysiad cydymffurfedd taliadau yn darparu'r tryloywder sydd ei angen i ddal y sector cyhoeddus i gyfrif am ei berfformiad wrth dalu cyflenwyr ar amser?

CWESTIWN 28: Os gwnaethoch chi ateb anghytuno neu anghytuno'n gryf i Gwestiwn 27, eglurwch pam nad ydych yn credu bod hyn yn cyflawni'r bwriad polisi.

**Hysbysiad Perfformiad Contract (Yn rheoliad 29 o'r offeryn statudol drafft)**

Mae'r hysbysiad perfformiad contract yn cyflawni dwy swyddogaeth; mae'n cofnodi perfformiad y cyflenwr yn ôl y Dangosyddion Perfformiad Allweddol a gyhoeddwyd a gwybodaeth sy'n ymwneud ag unrhyw achos difrifol o dor contract. Nid oes yn rhaid cyhoeddi perfformiad Dangosyddion Perfformiad Allweddol a thor contract difrifol ar un hysbysiad; mae modd cyhoeddi'r wybodaeth hon dros nifer o hysbysiadau perfformiad contract.

Cyn ymrwymo i gontract cyhoeddus yr amcangyfrifir y bydd ei werth dros £5 miliwn, fel arfer bydd yn rhaid i awdurdod contractio osod o leiaf dri Dangosydd Perfformiad Allweddol mewn perthynas â'r contract. Bydd gofyniad ar wahân hefyd i gyhoeddi Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn yr Hysbysiad Manylion Contract. Fodd bynnag, gall awdurdod contractio benderfynu nad yw Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn berthnasol i gontract, os yw'n ystyried na ellir asesu perfformiad y cyflenwr yn briodol drwy ddangosyddion o'r fath – yn yr achos hwn nid oes rhwymedigaeth i osod a chyhoeddi Dangosyddion Perfformiad Allweddol.

Nid oes angen cyhoeddi Dangosyddion Perfformiad Allweddol mewn unrhyw achos ar gyfer rhai mathau o gontractau. Sef:

- fframweithiau;
- contractau cyfleustodau sy'n cael eu dyfarnu gan gyfleustodau preifat;
- contractau consesiwn;
- contractau cyffyrddiad ysgafn.

Nid yw'r gofyniad i gyhoeddi gwybodaeth sy'n ymwneud â thor contract difrifol yn berthnasol i gyfleustodau preifat nac i gontractau cyffyrddiad ysgafn.

Mae cyhoeddi Dangosyddion Perfformiad Allweddol a gwybodaeth am dor contract/methu cyflawni yn rhoi tryloywder i awdurdodau contractio a'r cyhoedd am berfformiad cyflenwyr. Mae hyn felly'n rhoi ffynhonnell wrthrychol o wybodaeth i awdurdodau contractio ynghylch pa gyflenwyr sy'n rhwym wrth y sail eithrio ddewisol am dor contract a pherfformiad gwael, a bydd yn caniatáu iddynt arfer eu disgresiwn yn well mewn perthynas â'r rheswm hwn o ganlyniad.

CWESTIWN GORFODOL 29: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y bydd yr hysbysiad perfformiad contract yn rhoi digon o wybodaeth am berfformiad cyflenwr ar gontract?

CWESTIWN 30: Os gwnaethoch chi ateb anghytuno neu anghytuno'n gryf i Gwestiwn 29, eglurwch pam nad ydych yn credu bod hyn yn cyflawni'r bwriad polisi.

CWESTIWN GORFODOL 31: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y bydd yr hysbysiad perfformiad contract yn rhoi digon o wybodaeth am dor contract difrifol gan gyflenwr?

CWESTIWN 32: Os gwnaethoch chi ateb anghytuno neu anghytuno'n gryf i Gwestiwn 31, eglurwch pam nad ydych yn credu bod hyn yn cyflawni'r bwriad polisi.

**Hysbysiad Newid Contract (Yn rheoliad 30 o'r offeryn statudol drafft)**

Mae'r Bil Caffael yn datgan ei bod yn rhaid i awdurdod contractio gyhoeddi Hysbysiad Newid Contract ar gyfer 'contract trosadwy' (fel y'i diffinnir yn adran 74(1) o'r Bil) neu cyn addasu contract cyhoeddus.

Bwriad hysbysiadau newid contract yw sicrhau bod y penderfyniadau pwysig sy'n cael eu gwneud yn ystod oes contractau mwy yn fwy tryloyw ac agored i bartïon sydd â diddordeb allu craffu arnynt. Mae addasiadau sy'n gallu digwydd yn ystod oes contract yn gallu effeithio ar werth, hyd, gofynion ac elfennau eraill y contract.

Yn y weithdrefn bresennol, nid oes llawer o wybodaeth ar gael yn ystod cam gweithredu rheoli contract. Mae'r hysbysiad hwn yn ceisio mynd i'r afael â hyn yn y dyfodol.

Mae Llywodraeth y DU yn mynnu bod awdurdodau contractio yn cyhoeddi contractau wedi'u haddasu ar gyfer unrhyw gontract wedi'i addasu sy'n werth dros £5m. Nid fydd y gofyniad hwn yn berthnasol i awdurdodau contractio yng Nghymru oni bai fod awdurdod contractio yng Nghymru yn addasu contract a ddyfernir yn dilyn proses caffael o dan drefniant caffael a gedwir yn ôl. Gofynnir i'r ymatebwyr fod yn ymwybodol o hyn wrth ymateb i'r cwestiynau hyn.

Mae hysbysiad newid contract yn y weithdrefn newydd yn gallu bod yn berthnasol i nifer o gontractau sydd i gyd yn deillio o'r un broses caffael. Gallai hyn ddigwydd, er enghraifft, os bydd contract yn cael ei rannu'n lotiau gyda mwy nag un dyfarniad, ond mae pob un yn deillio o'r un hysbysiad tendro.

Nid oes angen hysbysiad newid contract ar gyfer addasiadau i rai mathau o gontractau, fel a ganlyn:

- contractau amddiffyn a diogelwch;
- contractau cyffyrddiad ysgafn;
- contractau sy'n cael eu dyfarnu gan gyfleustod preifat.

CWESTIWN GORFODOL 33: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y bydd cynnwys yr hysbysiad newid contract yn rhoi mwy o dryloywder o ran rheoli contractau'r llywodraeth yn briodol?

CWESTIWN 34: Os gwnaethoch chi ateb anghytuno neu anghytuno'n gryf i Gwestiwn 33, eglurwch pam nad ydych yn credu bod hyn yn cyflawni'r bwriad polisi.

**Hysbysiad Terfynu Contract (Yn rheoliad 31 o'r offeryn statudol drafft)**

Diben yr hysbysiad terfynu contract yw rhoi gwybod i randdeiliaid bod contract wedi cael ei dyfarnu a sicrhau bod y cyfnod data'n ddiweddar. Ar hyn o bryd nid yw'n glir a yw contractau wedi cael eu terfynu neu eu hymestyn.

Bydd defnyddio'r hysbysiad terfynu contract yn caniatáu ar gyfer rhagor o graffu drwy osod 'fflag' ar gyfer partïon sydd â diddordeb a fydd yn tynnu sylw at ddiwedd y contract. Bydd hefyd yn ei gwneud hi'n haws dadansoddi gwerth am arian y contract cyfan. Bydd hefyd yn rhoi uniondeb ar gyfer y penderfyniadau a fydd yn cael eu gwneud yn ystod oes y contract ac yn sicrhau bod mwy o eglurder ynghylch newidiadau sydd efallai wedi cael eu gwneud, er enghraifft, ymestyn cyfnod y contract.

Bydd yr hysbysiad terfynu contract hefyd yn cyflawni'r gofyniad sydd yng nghymal 71 'Asesu perfformiad contract' sef bod yn rhaid i awdurdodau gyhoeddi gwybodaeth benodol pan fydd cyflenwr wedi torri contract cyhoeddus a bod y tor contract hwnnw'n arwain at derfynu'r contract. Bwriad hyn yw sicrhau bod cofnod cyhoeddus o'r cyflenwyr sy'n rhwym wrth y sail eithrio ddewisol sy'n ymwneud â thor contract, at ddibenion tryloywder ond hefyd i'w gwneud hi'n haws i awdurdodau ddefnyddio'r sail honno. Rhaid cyhoeddi'r hysbysiad cyn diwedd y cyfnod o 30 diwrnod sy'n dechrau ar y diwrnod pan fydd contract cyhoeddus yn cael ei derfynu. Nid yw'r gofyniad i gyhoeddi hysbysiad terfynu contract yn berthnasol i gyfleustodau preifat nac mewn perthynas â chontractau dewis defnyddiwr sy'n cael eu dyfarnu'n uniongyrchol.

CWESTIWN GORFODOL 35: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y bydd cynnwys yr hysbysiad terfynu, fel y'i nodir yn yr offeryn statudol drafft, yn rhoi mwy o eglurder a thryloywder ynghylch pa gontractau llywodraeth sy'n dal mewn grym?

CWESTIWN 36: Os gwnaethoch chi ateb anghytuno neu anghytuno'n gryf i Gwestiwn 35, eglurwch pam nad ydych yn credu bod hyn yn cyflawni'r bwriad polisi.

**Platfform Digidol Canolog (Yn rheoliad 5 o’r offeryn statudol drafft)**

O dan y weithdrefn caffael newydd, mae Swyddfa’r Cabinet yn datblygu platfform digidol canolog i gyhoeddi hysbysiadau a dogfennau caffael cyhoeddus. Yng Nghymru, bydd angen cyhoeddi hysbysiadau ar GwerthwchiGymru, a fydd maes o law yn bwydo i’r system hon a byddant hefyd ar gael ar GwerthwchiGymru ei hun. Drwy greu’r platfform digidol canolog hwn, bydd gwybodaeth am gaffael ar draws y DU yn cael ei chadw mewn un lle. Bydd hyn yn gwneud pethau’n gliriach i gyflenwyr, yn golygu cystadleuaeth decach ac agored, yn bodloni gofynion cysylltiedig mewn cytundebau masnach ryngwladol ac yn rhoi cyfle i ddadansoddi data caffael cyhoeddus yn ystyrlon ar lefel gyfun.

Bydd y platfform digidol canolog yn golygu bod modd cael gafael yn electronig ar wybodaeth a dogfennau hysbysiadau ar draws y DU, yn rhad ac am ddim a thrwy un pwynt mynediad. Mae’r offeryn statudol drafft yn darparu gwybodaeth am weithrediad y platfform ac yn nodi’r gofynion i’r awdurdodau contractio ei defnyddio. Pan fydd yn rhaid i awdurdodau contractio gyhoeddi hysbysiadau a/neu ddogfennau, bydd hyn yn cael ei wneud drwy’r platfform digidol canolog drwy GwerthwchiGymru ar gyfer Awdurdodau Contractio yng Nghymru. Ystyrir bod yr hysbysiadau a/neu’r dogfennau wedi cael eu cyhoeddi’n llwyddiannus pan fydd yr hysbysiad ar gael ar y platfform i’r cyhoedd ei weld, neu pan fydd yr awdurdod contractio’n derbyn cadarnhad bod yr hysbysiad neu'r ddogfen wedi cael ei chyflwyno i’r platfform yn llwyddiannus.

Bydd modd defnyddio’r platfform digidol ar gyfer y DU i gyd i gyhoeddi gwybodaeth sy’n ymwneud â phrosesau caffael o dan y trothwy (gan gynnwys pan fydd yr wybodaeth hon yn ofynnol o dan y Bil (cymal 87) a phan fydd yr awdurdod contractio wedi dewis cyhoeddi hysbysiadau) yn ogystal â phrosesau caffael eraill sy’n rhwym wrth y weithdrefn newydd (caffael a ddaw o dan brif ddarpariaethau’r Bil). Ond ar gyfer Awdurdodau Contractio yng Nghymru bydd hyn yn cael ei wneud drwy GwerthwchiGymru gan mwyaf.

Os na fydd y platfform digidol canolog ar gael i gyhoeddi, bydd yr awdurdod contractio yn gallu cyhoeddi ar blatfform arall gan gynnwys GwerthwchiGymru; mae rhagor o fanylion am yr amodau ar gyfer platfform o’r fath ar gael yn yr offeryn statudol drafft. Ar ôl hynny, pan fydd y platfform digidol canolog ar gael unwaith eto i gyhoeddi, bydd GwerthwchiGymru yn ei anfon i’r system ar-lein, ond yr awdurdod contractio sy’n gyfrifol am sicrhau bod hyn yn digwydd.

CWESTIWN GORFODOL 37: I ba raddau ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno bod drafft yr offeryn statudol yn egluro sut bydd y platfform digidol canolog yn gweithio?

CWESTIWN 38: Os gwnaethoch chi ateb anghytuno neu anghytuno’n gryf i Gwestiwn 37, eglurwch pam nad ydych yn credu bod hyn yn cyflawni’r bwriad polisi.

CWESTIWN GORFODOL 39: I ba raddau ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno bod y weithdrefn amgen yn rhoi dewis arall ymarferol petai’r platfform digidol canolog yn methu?

CWESTIWN 40: Os gwnaethoch chi ateb anghytuno neu anghytuno’n gryf i Gwestiwn 39, eglurwch pam nad ydych yn credu bod hyn yn cyflawni’r bwriad polisi.

**Y Platfform Digidol Canolog: Gwybodaeth am Gyflenwyr (Yn rheoliadau 6 i 10 o'r offeryn statudol drafft)**

Cyn i gyflenwr gymryd rhan mewn proses gaffael sy'n dod o dan ddarpariaethau'r Bil, mae'r offeryn statudol drafft yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau contractio sicrhau bod cyflenwyr wedi'u cofrestr ar y platfform a chadarnhau eu bod wedi cyflwyno eu gwybodaeth graidd am gyflenwyr (fel yr amlinellir yn yr offeryn statudol drafft) i'r platfform. Pan fydd angen unrhyw ran o'r wybodaeth graidd hon am gyflenwyr ar awdurdod contractio, rhaid i'r awdurdod contractio yn y lle cyntaf ei chael o'r platfform, oni bai bod y cyflenwr yn darparu gwybodaeth wedi'i diweddaru neu wedi'i chywiro (ar ôl y cyfnod tendro) drwy ffordd arall.

Diben y platfform digidol canolog yw cwtogi'r amser sy'n cael ei dreulio gan gyflenwyr yn cael gafael ar gyfleoedd caffael cyhoeddus drwy sicrhau bod modd cyflwyno data cyffredin yn fwy effeithlon ac effeithiol. Bydd y data hwn wedyn yn cael ei storio a'i gadw yn y Gofrestr Cyflenwyr. Mae hyn yn fudd go iawn i bob busnes, ond yn enwedig busnesau bach a chanolig.

Yn unol â'n dull gweithredu 'dweud unwaith', bydd hyn yn golygu bod cyflenwyr yn gallu cynnig am gystadlaethau sector cyhoeddus heb orfod dyblygu gwybodaeth graidd gyda phob cynnig byddan nhw'n ei gyflwyno. Y cyflenwyr fydd yn gyfrifol am sicrhau bod yr wybodaeth maen nhw'n ei hawdurdodi i gael ei chyflwyno o'r platfform digidol canolog i'r tîm caffael fel rhan o'u tendr yn gyfredol ac yn gywir ar ddiwedd y cyfnod tendro. Os bydd gwybodaeth cyflenwr yn newid yn ystod proses caffael, bydd yn gallu tynnu'n ôl ac yna ailgyflwyno ei gynnig nes i'r cyfnod tendro ddod i ben. Bydd cyflenwyr hefyd yn gallu diweddaru eu gwybodaeth y tu allan i unrhyw broses dendro ffurfiol.

Bydd y platfform digidol canolog yn creu pecyn o wybodaeth y bydd yr awdurdod contractio yn ei gael wrth i'r cyfnod tendro ddod i ben.  Mae hyn yn golygu y byddant yn cael rhywfaint o'r wybodaeth sydd ei hangen pan fyddant yn cyhoeddi hysbysiadau yn nes ymlaen.  Bydd yn eu helpu i gynnal diwydrwydd dyladwy a phenderfynu a yw'r cyflenwr wedi'i eithrio neu a oes modd ei eithrio.

CWESTIWN GORFODOL 41: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y bydd yr wybodaeth y mae'r offeryn statudol drafft yn mynnu y bydd yn rhaid ei chael drwy'r platfform digidol canolog yn arbed amser ailgyflwyno a dyblygu gan gyflenwyr sy'n cynnig am fwy nag un contract gan y llywodraeth?

CWESTIWN 42: Os gwnaethoch chi ateb anghytuno neu anghytuno'n gryf i Gwestiwn 41, eglurwch pam nad ydych yn credu bod hyn yn cyflawni'r bwriad polisi.

CWESTIWN GORFODOL 43: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid gwneud defnyddio'r Platfform Digidol Canolog: Gwybodaeth am Gyflenwyr yn orfodol yn

ystod y cyfnod tendro, a dim ond gwybodaeth graidd am gyflenwyr cofrestredig a gyflwynir i'r platfform y dylai awdurdodau contractau ei defnyddio cyn diwedd y cyfnod tendro?

CWESTIWN 44: Os gwnaethoch chi ateb anghytuno neu anghytuno'n gryf i Gwestiwn 43, eglurwch eich rhesymau.

**Codau Adnabod Unigryw (Yn rheoliad 4 o’r offeryn statudol drafft)**

Er mwyn sicrhau bod y data a gyhoeddir yn cael ei briodoli’n gywir i bartïon a phrosesau penodol, bydd gan yr holl awdurdodau contractio, cyflenwyr a gweithdrefnau caffael (a’u hysbysiadau unigol) godau adnabod unigryw ar y platfform digidol canolog. Bydd yn rhaid i awdurdod contractio gynnwys y codau adnabod unigryw hyn ym mhob proses caffael wrth gyhoeddi hysbysiadau a gwybodaeth arall (gan gynnwys data talu) ar y platfform digidol canolog. Mae hyn yn cefnogi cyhoeddi a defnyddio data ar y platfform.

Bydd cod adnabod unigryw ar gyfer yr holl wybodaeth a gyhoeddir gan yr holl awdurdodau contractio yng nghyswllt yr awdurdod contractio, y cyflenwr a’r broses caffael yn golygu na fydd cofnodion yn cael eu dyblygu ar y platfform digidol canolog a bydd yn cysylltu pob cofnod sy’n gysylltiedig â phob proses caffael (a phob cyflenwr ac awdurdod contractio), a fydd yn golygu bod modd olrhain a dadansoddi.

Pan fydd cyflenwr eisoes wedi cael cod adnabod unigryw o gofrestr swyddogol, fel Tŷ’r Cwmnïau, er enghraifft, gall ddefnyddio’r un cod adnabod unigryw ar y platfform digidol canolog. Neu pan nad oes cod adnabod unigryw eisoes yn bodoli ar gyfer y cyflenwr yn rhywle arall, bydd y platfform yn gallu creu un.
Mae’r offeryn statudol drafft yn diffinio’r gwahanol fathau o godau adnabod unigryw a fydd yn cael eu defnyddio ac mae’n nodi sut byddant yn cael eu cynhyrchu, eu darparu a'u defnyddio.

Bydd yn rhaid i gyflenwyr sy’n cynnig am gyfleoedd yng Nghymru gael Cod Adnabod Unigryw drwy System Cofrestru Cyflenwyr y Platfformau Canolog cyn gallu cyflwyno eu cynigion.

CWESTIWN GORFODOL 45: I ba raddau ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno y bydd y darpariaethau ar godau adnabod unigryw yn golygu bod modd olrhain data caffael?

CWESTIWN 46: Os gwnaethoch chi ateb anghytuno neu anghytuno’n gryf i Gwestiwn 45, eglurwch pam nad ydych yn credu bod hyn yn cyflawni’r bwriad polisi.

**Darpariaethau Pontio (Nid yw'r manylion yn offeryn statudol drafft yr Ymgynghoriad)**

Mae'r Bil yn cynnwys pŵer (cymal 124) i wneud darpariaeth drosiannol, darpariaeth ddarfodol neu ddarpariaeth arbed ar gyfer cychwyn y Ddeddf. Bydd rheoliadau'n sefydlu'r trefniadau pontio ar gyfer prosesau caffael sydd eisoes ar waith ar yr adeg y daw'r weithdrefn newydd i rym. Bwriedir i'r weithdrefn caffael newydd amharu cyn lleied â phosibl ar gontractau sydd eisoes wedi cael eu dyfarnu o dan y rheoliadau presennol neu brosesau caffael sydd wedi dechrau ond heb eu dyfarnu pan ddaw'r weithdrefn newydd i rym.

Yr egwyddor sylfaenol yw bod yn rhaid i brosesau caffael sy'n 'dechrau' ar ôl y dyddiad y daw'r ddeddfwriaeth newydd i rym gael eu cynnal drwy gyfeirio at y weithdrefn newydd yn unig. Dylai'r rheini sydd wedi dechrau o dan Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015, Rheoliadau Contractau Cyfleustodau 2016 neu Reoliadau Contractau Consesiwn 2016 (yr 'hen weithdrefn') barhau i ddibynnu ar y rheoliadau hynny. Yn ymarferol, gallai 'dechrau' proses caffael gystadleuol o dan yr hen drefn olygu:

- cyflwyno hysbysiad er mwyn gwahodd tendrau, ceisiadau i gael eu dewis i dendro neu i negodi, neu geisiadau i gymryd rhan mewn perthynas â chontract neu gytundeb fframwaith;
- cyhoeddi hysbyseb sy'n gofyn am gynigion neu ddatganiadau o ddiddordeb mewn perthynas â chontract neu gytundeb fframwaith o'r fath;
- cysylltu ag unigolyn i ofyn am gynnig neu ddatganiad o ddiddordeb mewn perthynas â chontract neu gytundeb fframwaith o'r fath;
- cysylltu ag unigolyn er mwyn ymateb i gynnig neu ddatganiad o ddiddordeb nas gofynnwyd amdano mewn perthynas â chontract neu gytundeb fframwaith o'r fath;
- ymrwymo i gontract o'r fath neu derfynu cytundeb fframwaith o'r fath.

Gyda chontractau nad ydynt yn rhai cystadleuol mae hi'n anoddach pennu a yw proses caffael wedi 'dechrau' o dan yr hen weithdrefn oherwydd nad oes hysbysiadau gorfodol. Bydd unrhyw broses caffael nad yw'n gystadleuol yr ymrwymir iddo fwy na 3 mis ar ôl y dyddiad gweithredu yn dilyn rheolau'r weithdrefn newydd, oni bai fod Hysbysiad Tryloywder Ex-Ante Gwirfoddol eisoes wedi cael ei gyhoeddi ar gyfer y broses caffael.

Bydd prosesau caffael sydd wedi dechrau o dan yr hen weithdrefn yn parhau hyd at ddiwedd oes contractio'r broses honno, hynny yw bydd y broses caffael a'r contract a fydd yn deillio o hynny'n parhau i weithredu o dan yr hen drefn tan:

- ddiwedd y contract a ddyfernir o ganlyniad i broses o dan yr hen weithdrefn, neu,
- penderfynu na fydd dyfarniad yn cael ei wneud; neu
- ar gyfer fframwaith, diwedd y contract yn ôl y gofyn olaf i orffen o ganlyniad i ddyfarniad a wnaed yn ystod oes y fframwaith hwnnw; neu

- ar gyfer Systemau Prynu Deinamig, diwedd y contract olaf a ddyfarnwyd drwy gyfeirio at y System Prynu Ddeinamig yn ystod ei oes, neu
- ar gyfer System Cymhwyso, diwedd y contract olaf a ddyfarnwyd drwy gyfeirio at y System Cymhwyso yn ystod ei oes neu pan nad oes terfyn i'w hyd, diwedd y contract olaf drwy gyfeirio at y System Cymhwyso cyn iddi ddod i ben.

Felly, bydd fframweithiau, Systemau Prynu Deinamig a Systemau Cymhwyso a sefydlir o dan yr hen weithdrefnau caffael yn dal yn llwybrau sy'n cydymffurfio i'r farchnad, gan dybio eu bod wedi cael eu sefydlu'n gyfreithlon, hy bydd modd dyfarnu contractau drwy'r offer masnachol hyn a sefydlwyd o dan yr hen weithdrefn nes iddynt ddod i ben, nes iddynt gael eu disodli, neu nes iddynt beidio â bodoli.

Bydd cofrestr yr offer masnachol (a fydd yn rhoi rhestr o fframweithiau a Marchnadoedd Dynamig) ond yn cofnodi fframweithiau neu farchnadoedd dynamig a fydd yn cael eu sefydlu o dan y weithdrefn newydd.

Er mwyn cefnogi proses pontio drefnus, mae rhai egwyddorion ychwanegol wedi cael eu gosod sy'n ystyried y gwahaniaethau rhwng yr hen weithdrefnau a'r rhai newydd, er enghraifft:

- Os yw awdurdod contractio wedi dechrau neu wedi cwblhau ymgysylltu â'r farchnad ymlaen llaw o dan yr hen weithdrefn ond heb hysbysebu cyn i'r weithdrefn newydd ddod i rym, ni fydd angen iddo fynd yn ôl yn y broses a dechrau'r ymgysylltu eto, gyda hysbysiad ymgysylltu â'r farchnad ymlaen llaw. Yn lle hynny, bydd yn gallu egluro'r sefyllfa o ran ymgysylltu â'r farchnad ymlaen llaw yn ei hysbysiad tendro.
- Os yw awdurdod contractio wedi cyhoeddi Hysbysiad Gwybodaeth Ymlaen Llaw heb wahodd datganiadau o ddiddordeb neu gymryd camau eraill a amlinellir uchod sy'n golygu dechrau proses caffael, yna bydd y contract yn cael ei osod o dan y weithdrefn newydd.
- O dan y weithdrefn newydd, dylid cyhoeddi hysbysiad cydymffurfedd taliadau o fewn 30 diwrnod i ddiwedd pob cyfnod o chwe mis. Fodd bynnag, disgwylir na fydd y gallu digidol i gyhoeddi Hysbysiadau Cydymffurfedd Taliadau ar gael tan nes ymlaen yn 2024, felly bydd eithriad i'r cyfnod yn syth ar ôl i'r weithdrefn newydd ddod i rym.
- Mae'n debygol hefyd na fydd yr hysbysiad perfformiad contract ar gael tan nes ymlaen yn 2024 ac felly bydd unrhyw adroddiadau perthnasol ar gael yn hwyrach.

Sylwch y bydd rhagor o ganllawiau'n cael eu darparu a fydd yn egluro'r holl drefniadau pontio'n llawn.

CWESTIWN GORFODOL 47: I ba raddau ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno â’r dull gweithredu ar gyfer y trefniadau pontio a nodir yn yr ymgynghoriad hwn?

CWESTIWN 48: Os gwnaethoch chi ateb anghytuno neu anghytuno’n gryf i Gwestiwn 47, eglurwch eich rhesymau.

**Diwygiadau Canlyniadol (Nid yw’r manylion yn offeryn statudol drafft yr Ymgynghoriad)**

Mae’r Bil Caffael (cymal 123) yn caniatáu i awdurdod priodol (gan gynnwys Gweinidogion Cymru) wneud rheoliadau sy’n diwygio deddfwriaeth arall o ganlyniad i ddarpariaethau’r Bil. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod deddfwriaeth arall sy’n cynnwys cyfeiriadau at gaffael cyhoeddus yn cael ei diweddaru i gyd-fynd â’r Ddeddf Caffael. Er enghraifft, bydd y pŵer yn cael ei ddefnyddio i ddileu cyfeiriadau mewn deddfwriaeth arall at Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 a fydd yn cael eu diddymu gan y Ddeddf Caffael ac yn eu disodli â chyfeiriadau at rannau perthnasol o’r Ddeddf honno yn lle hynny.

Bydd angen diwygio Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 o fewn Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) a nifer o reoliadau, er enghraifft Rheoliadau Cymorth Amaethyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â’r UE) 2021 a rheoliad 18 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru). Er y bydd y diweddariadau hyn yn cael eu gwneud drwy offeryn statudol, nid ydym yn darparu drafft ar gyfer ymgynghoriad gan fod y darpariaethau’n gwbl dechnegol eu natur.

**Contractau o dan y trothwy (Cymru yn unig) (Nid yw'r manylion yn offeryn statudol drafft yr Ymgynghoriad)**

Fel y nodir yn Rhan 1 yr Ymgynghoriad, mae Rhwymedigaethau Rhyngwladol yn pennu pa sefydliadau sy'n cael eu rhestru fel Awdurdodau Llywodraeth Ganolog yn y Bil Caffael.

Mae "contract hysbysadwy o dan y trothwy" yn cael ei ddiffinio yng nghymal 87(4) y Bil. Mae Gweinidogion Cymru wedi ailystyried y trothwy ar gyfer Awdurdodau Llywodraeth Ganolog a nodir yn y cymal hwn ac maent yn bwriadu cyflwyno rheoliadau i'w newid i £24,000 gan gynnwys TAW. Roeddent yn meddwl bod £12,000 yn rhy isel oherwydd y baich gweinyddol posibl y byddai'n ei greu i Awdurdodau Llywodraeth Ganolog llai.

Bydd y ffigur hwn yn aros yn £30,000 gan gynnwys TAW i Gyrff Is-ganolog, gan fod hyn yn cyd-fynd â pholisïau blaenorol Cymru ynghylch hysbysebu Contractau o dan y trothwy.

Yng Nghymru, bydd yn rhaid i gyflenwyr gofrestru ar System Cofrestru Cyflenwyr y Platfform Canolog er mwyn cynnig am gontractau hysbysadwy o dan y trothwy.Bydd y broses gofrestru hon yn golygu bod yn rhaid i gyflenwyr lenwi dim ond eu gwybodaeth sylfaenol amdanynt eu hunain, fel rhif y cwmni, cyfeiriad a manylion cyswllt. Nid yw'r gofyniad hwn wedi cael ei gynnwys yn offeryn statudol drafft y DU ond bydd yn offeryn statudol drafft Cymru er mwyn gallu dyrannu cod adnabod unigryw i gyflenwyr. Bydd hyn yn sicrhau bod un cofnod cyflenwr yn bodoli ar gyfer holl wariant a hysbysiadau cyflenwr. Bydd felly'n helpu i wella tryloywder, y data sydd ar gael a sicrhau bod cyflenwyr yng Nghymru yn gallu cael gafael ar gyfleoedd sy'n cael eu hysbysebu ar y platfform digidol canolog.

CWESTIWN GORFODOL 49: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r gwelliant i'r symiau trothwy i'w defnyddio gyda Chontractau o dan y Trothwy ar gyfer Awdurdodau Llywodraeth Ganolog?

CWESTIWN 50: Os gwnaethoch chi ateb anghytuno neu anghytuno'n gryf i Gwestiwn 49, eglurwch eich rhesymau.

CWESTIWN GORFODOL 51: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y bydd mynnu bod cyflenwyr yn cofrestru ar System Cofrestru Cyflenwyr y Platfform Canolog ar gyfer tendrau hysbysadwy o dan y trothwy yn gwella tryloywder, cysondeb data a'r data masnachol sydd ar gael?

CWESTIWN 52: Os gwnaethoch chi ateb anghytuno neu anghytuno'n gryf i Gwestiwn 51, eglurwch pam nad ydych yn credu bod hyn yn cyflawni'r bwriad polisi.

CWESTIWN GORFODOL 53: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai fod yn rhaid i awdurdodau contractio gasglu gwybodaeth sylfaenol am gyflenwyr dim ond drwy System Cofrestru Cyflenwyr y Platfform Canolog?

CWESTIWN 54: Os gwnaethoch chi ateb anghytuno neu anghytuno'n gryf i Gwestiwn 53, eglurwch eich rhesymau.

**Y Gymraeg**

Mae gan Lywodraeth Cymru ddyletswydd statudol wrth ymgynghori i geisio eich barn am effeithiau ein polisïau, ein deddfwriaeth a’n mentrau ar y Gymraeg. Mae hyn er mwyn sicrhau ein bod yn ystyried unrhyw effaith a gaiff ein polisïau ar, yn gyntaf, peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg ac yn ail, hyrwyddo cyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg yn unol â’n gweledigaeth (fel y nodir yn y strategaeth iaith Gymraeg, Cymraeg 2050), i weld miliwn o siaradwyr Cymraeg a mwy o ddefnydd o’r iaith.

Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi gweithio’n agos ar ddatblygu eu hofferynnau statudol eu hunain i sicrhau bod y deddfwriaethau mor gyson â phosibl ac i leihau unrhyw risg o wahaniaethau posibl. Er bod yr ymgynghoriad hwn yn defnyddio’r offeryn statudol drafft sydd wedi cael ei ddatblygu gan Lywodraeth y DU, bydd offeryn statudol Cymru (pan gaiff ei gyhoeddi) ar gael yn ddwyieithog yn unol â Rheolau Sefydlog Senedd Cymru.

CWESTIWN GORFODOL 55: Hoffem glywed eich barn am yr effeithiau y byddai’r Is-ddeddfwriaeth arfaethedig yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.

Beth fyddai’r effeithiau posibl yn eich barn chi? Sut gellid cynyddu’r effeithiau cadarnhaol, neu leihau'r effeithiau negyddol?

CWESTIWN GORFODOL 56: Eglurwch hefyd, sut rydych chi’n credu y gall manylion technegol arfaethedig y fersiwn ddrafft gael eu llunio neu eu haddasu er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu gynyddu effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.